OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 2911 (Cy.208)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*18 Hydref 2005*
Yn dod i rym - -	*31 Hydref 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 33(3) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Hydref 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Dirymir Rheoliadadau Addysg (Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni) (Cymru) 1999(**2**).

Dehongli

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad mewn darpariaeth yn y Rheoliadau hyn—

(a) at y corff llywodraethu neu gorff llywodraethu ysgol yn gyfeiriad at gorff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r ddarpariaeth yn gymwys iddi;

(b) at riant yn gyfeiriad at riant i ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol y mae'r ddarpariaeth yn gymwys iddi;

(c) at ysgol yn gyfeiriad at ysgol a gynhelir o fewn ystyr "maintained school" yn adran 39(1) o Ddeddf 2002.

(**1**) 2002 p. 32. I gael diffiniad "regulations" *gweler* adran 212.
(**2**) O.S. 1999/1407.

Esemptiad ar gyfer ysgolion arbennig ysbytai ac ysgolion byrddio.

4. Mae corff llywodraethu yn esempt rhag y rhwymedigaeth a osodir dan adran 33(1) o Ddeddf 2002 i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni—

(a) os yw'r ysgol yn ysgol arbennig gymunedol neu'n ysgol arbennig sefydledig a gafodd ei sefydlu mewn ysbyty a bod y corff llywodraethu o'r farn y byddai'n anymarferol cynnal cyfarfod o'r fath yn y flwyddyn ysgol honno; neu

(b) os yw'r ysgol yn ysgol a gynhelir heblaw un o fewn paragraff (a), a bod y corff llywodraethu o'r farn y byddai'n anymarferol cynnal cyfarfod o'r fath yn y flwyddyn ysgol honno, a bod o leiaf 50% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol yn ddisgyblion byrddio ar yr adeg y ffurfir y farn honno gan y corff llywodraethol.

Esemptiad i ysgolion sy'n cynnal cyfarfod ar ôl arolygiad

5. Mae'r corff llywodraethu yn esempt rhag y rhwymedigaeth a osodir gan adran 33(1) o Ddeddf 2002 i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni am y flwyddyn ysgol y caiff y cyfarfod y cyfeirir ato ym mharagraff (b) ei gynnal—

(a) os cafodd yr ysgol ei harolygu o dan adran 10 o Deddf Arolygu Ysgolion 1996(**3**) gan arolygydd cofrestredig, ac

(b) os yw'r corff llywodraethu, o fewn y cyfnod a ragnodwyd yn rheoliad 8(1) o Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru)1998(**4**) ar gyfer paratoi cynllun gweithredu, wedi cynnal cyfarfod y cafodd pob rhiant wahoddiad iddo i drafod adroddiad yr arolygydd cofrestredig.

Esemptiad i ysgolion sy'n cynnal cyfarfodydd eraill

6. Os bydd y corff llywodraethu, mewn unrhyw flwyddyn ysgol, yn cynnal cyfarfod y cafodd pob rhiant wahoddiad iddo, neu gyfres o gyfarfodydd a bod pob rhiant yn cael gwahoddiad i o leiaf un o'r gyfres, a bod—

(a) rhieni dim llai na 20% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol yn mynychu'r cyfarfod neu o leiaf un mewn cyfres;

(b) rhieni yn cael cyfle yn y cyfarfod neu ym mhob un o'r gyfres o gyfarfodydd (yn ôl y digwydd) i drafod y dull y cafodd yr ysgol ei rhedeg, a'r dull y bydd yn cael ei rhedeg, a pherfformiad yr ysgol, ac

(c) tri neu fwy o lywodraethwyr yn mynychu'r cyfarfod neu bob cyfarfod yn y gyfres (yn ôl y digwydd),

mae'r corff llywodraethu yn esempt rhag y rhwymedigaeth a osodir dan adran 33(1) o Ddeddf 2002 i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni ar gyfer y flwyddyn ysgol y cynhelir y cyfarfod neu (yn ôl y digwydd) gyfres y cyfarfodydd ynddi.

Esemptiad os nad yw rhieni yn ymateb i'r hysbysiad o gyfarfod

7. Mae'r corff llywodraethu yn esempt rhag y rhwymedigaeth a osodir o dan adran 33(1) o Ddeddf 2002 i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni mewn unrhyw flwyddyn ysgol pan fydd yn rhoi i rieni gydag adroddiad y llywodraethwyr hysbysiad yn gofyn i rieni ddatgan yn ysgrifenedig o fewn cyfnod penodedig nad yw'n llai na 7 niwrnod os yw'n ofynnol ganddynt i'r corff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol rhieni a bod rhieni llai na 5% o'r disgyblion cofrestredig yn ymateb o fewn y cyfnod penodedig.

(**3**) 1996 p.57.
(**4**) O.S. 1998/1866. Diwygiwyd rheoliad 8(1) gan O.S. 2004/784 (Cy. 81).